RHIFYN
ISSUE
03

Llais Llantrisant

15.02.19

BLWYDDYN NEWYDD DDA!
HAPPY NEW YEAR!

新年快乐!



Gwelwyd cyffro mawr yn y dosbarthiadau ar 05.02.19 wrth i'r plant ymgymryd â gweithgareddau i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

We saw great excitement in the classes on 05.02.19 as the children took part in activities to celebrate the Chinese New Year.









https://chinesenewyear.net



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

22.02.19 - Gorffen ar gyfer Hanner Tymor
Finish for Half Term
04.03.19 - Plant yn dychwelyd i'r ysgol
Children return to school
12.04.19 - Diwrnod ola'r tymor
Last day of term
30.04.19 - Plant yn dychwelyd - Tymor yr Haf
Children return - Summer Term

GWEITHDAI RHIFEDD
NUMERACY WORKSHOPS

Ar 21.02.19 a 22.02.19 bydd 'The Happy Puzzle Co.' yn yr ysgol i weithio gyda phlant CA2. Cynhelir sesiynau rhifedd llawn hwyl a sbri i blant Blwyddyn 3 i 6 yn ystod y dydd. Bydd y sesiynau hyn yn datblygu sgiliau rhifedd a rhesymu'r plant wrth i ni baratoi ar gyfer yr Asesiadau Rhifedd fis Mai eleni.
Am 3:40 yp ar 22.02.19, cynhelir gweithdy ar gyfer plant a rhieni Blwyddyn 4 yn neuadd yr ysgol. Edrychwn ymlaen at groesawu pawb i'r sesiwn yma er mwyn i'r plant ddangos eu gwaith ac i chi chwarae gêmau a phosau gyda nhw. Hefyd, bydd siop yn y neuadd a fydd yn rhoi cyfle i chi brynu ambell i gêm-fwrdd i chi chwarae gartref.

On 21.02.19 and 22.02.19 we welcome 'The Happy Puzzle Co.' to school to hold a number of numeracy workshops with our KS2 pupils. These fun filled sessions will be for our Year 3 to 6 pupils during the days. The sessions will develop the pupils' numeracy and mathematical reasoning skills as we prepare for the Numeracy Assessments in May this year.
At 3:40 pm on 22.02.19, we invite Year 4 pupils and parents to the school hall for a fun puzzle and maths games session. The pupils will be able to share the work they have been doing during the day and there will be an opportunity to play maths games and puzzles together. Also, there will be a shop in the hall offering board-games to purchase for use at home.

www.happypuzzle.co.uk
@happypuzzle

the Happy Puzzle Company

HOLIADUR Y SIARTER IAITH
THE LANGUAGE CHARTER QUESTIONNAIRE

Gofynnwn yn garedig i bawb gwblhau'r holiadur isod, os gwelwch yn dda. Mae'r Criw Cymraeg wedi llunio nifer o gwestiynau er mwyn casglu barn ein rhieni am y Siarter Iaith. Bydd hyn yn cael ei ysytyried wrth i'r ysgol gael ei hasesu ar diwedd y flwyddyn ar gyfer y Wobr Arian. Diolch!
We kindly ask all parents to complete the questionnaire below, please. The Welsh Crew have drawn up a number of questions to glean the opinion of our parents in regards to the Welsh Language Charter. This activity will be considered when we are assessed towards the end of the year for the Silver Award. Thank you!

DOLEN-LINK



DIOGELWCH AR Y WE
INTERNET SAFETY

Ar 05.02.19 ffocws gweithgareddau a thasgau'r dydd i'r holl blant oedd cadw'n ddiogel ar y we. Mae hyn yn holl bwysig i ni, fel athrawon yn yr ysgol, ac i chi fel rhieni gartref, rwy'n siwr. Gweler isod ychydig o wefannau defnyddiol i chi a'ch plentyn fwrw golwg drostynt gartref.
On 05.02.19 the focus of the children's activities and tasks for the day was internet safety. This is very important to us, as teachers in school, and to you as parents at home, I'm sure. See below a few useful websites for you and your children to browse at home.

https://www.thinkuknow.co.uk
https://parentinfo.org
https://www.childnet.com/parents-and-carers

Safer Internet Day



DIGWYDDIADAU
EVENTS

21.02.19
Gweithdy 'The Happy Puzzle Co.' - Blwyddyn 4 am 3:40 y.p.
'The Happy Puzzle Co.' Workshop - Year 4 at 3:40 p.m.

04.03.19
Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi (gwisgoedd Cymreig)
St David's Day celebrations (Welsh outfits)

06.03.19
Yr Eisteddfod Gylch (Ysgol Llanhari)
Regional Eisteddfod (Ysgol Llanhari)

07.03.19
Diwrnod y Llyfr (Gwisgwch fel cymeriad o lyfr)
World Book Day (Dress as a book character)

11.03.19
Apwyntiadau Nosweithiau Agored ar agor ar y Moodle 9:00 y.b.
YDY'CH MANYLION MEWNGOFNODI MOODLE YN GWEITHIO?
Open Evenings appointments open on the Moodle 9:00 a.m.
DO YOUR MOODLE LOG ON DETAILS WORK?



Y CWIS LLYFRAU
THE BOOK QUIZ

Da iawn wir i dîm y Cwis Llyfrau a aeth i Abercynon wythnos ddiwethaf i gystadlu yn y Cwis Llyfrau. Trafodwyd y plant y nofel yn arbennig o dda felly mae popeth wedi'i groesi tra'n bod yn aros i glywed y canlyniadau!
Well done to the Book Quiz team who travelled to Abercynon last week to compete in The Book Quiz. The children discussed the novel very well so we have everything crossed whilst we await the results!



@Velindre - Codwyd / *We raised* £317.50 ! Diolch!

SIG 31
GGY 31

Braf oedd croesawu Ysgol Iau Ton Pentre i'r ysgol ar 14.02.19 i weithio â Miss Sara Williams. Roedd y plant wedi dysgu'r darn llefaru ar gyfer yr Eisteddfod Gylch ar 06.03.19 cyn dod atom er mwyn i ni gynnig cymorth iddynt wrth berfformio! Dymunwn bob lwc iddynt ac edrychwn ymlaen at gwrdd â nhw eto yn ysgol Llanhari ar gyfer yr Eisteddfod Gylch.
It was great to welcome Ton Pentre Junior School to school on 14.02.19 to work with Miss Sara Williams. The children had been busy learning the recitation piece for the Regional Eisteddfod on 06.03.19 and visited us for some help and tips! We wish them the very best of luck and we look forward to meeting them again in the Regional Eisteddfod in Ysgol Llanhari.













CAMPAU CHWARAEON
SPORTING EVENTS

Llongyfarchiadau i ferched Blwyddyn 5 a 6 wedi iddynt gymryd rhan mewn twrnamaint rygbi a drefnwyd gan Yr Urdd ar 07.02.19. Daeth y merched yn 4ydd yn erbyn nifer o ysgolion cynradd eraill yr ardal ac, ym marn Mr Jones, chwaraeon nhw'n arbennig o dda! *Congratulations to Year 5 and 6 girls following their participation in a rugby tournament organized by the Urdd on 07.02.19. The girls came 4th against a number local primary schools and Mr Jones reported that they played very well during the day!*
Ar 08.02.19, aeth dau dîm o ferched Blwyddyn 5 a 6 i'r Ddraenen Wen i gystadlu mewn twrnamaint pêl-rwyd. Chwaraeodd y merched 6 gêm i gyd. Enillodd tîm Blwyddyn 5 un gêm, daethon nhw'n gyfartal mewn un a cholli un. Roedd Mrs Hulse yn falch iawn o'r plant i gyd gan eu bod wedi chwarae yn arbennig o dda! *On 08.02.19 two teams of Year 5 and 6 girls travelled to Hawthorn to compete in a netball tournament. The girls played 6 games in all - with Year 5 winning one, drawing one and losing in the final game. Mrs Hulse was very proud of the girls as they played so well!*
Aeth tîm o fechgyn i chwarae yn Nhwrnamaint Rygbi 7 bob ochr a drefnwyd gan yr Urdd ar 14.02.19 ac, unwaith eto, chwaraeon nhw'n arbennig o dda! *A team of boys took part in a 7 a side Rugby Tournament organised by the Urdd on 14.02.19 and, once again, they played very well!*

Y SIARTER IAITH
THE LANGUAGE CHARTER

Fel y gwyddoch, llwyddom i ennill Gwobr Efydd y Siarter Iaith llynedd. Eleni, rydym yn gweithio'n agos iawn gydag ysgolion eraill y Clwstwr tuag at ennill y Wobr Arian. Gwerthfawrogwn eich cymorth yn fawr iawn gartref wrth i chi gadw ein targedau mewn cof. Cofiwch fwrw golwg drostynt ar dudalen flaen y Moodle. Yn ddiweddar, bu plant CA2 yn brysur iawn yn paentio cerrig ag enwau grwpiau pop a chaneuon Cymreig arnynt. Byddwn yn cuddio'r cerrig hyn o gwmpas yr ardal leol gan obeithio y bydd trigolion yr ardal yn dod o hyd iddynt a'n trydaru ni!

As you will know, we successfully gained the Language Charter Bronze Award last year. This year, we have been working closely with our Cluster schools towards gaining the Silver Award. We very much appreciate your support in keeping our targets in mind with the children at home. Remember that you can read them on the Moodle front page. Recently,KS2 pupils were very busy painting pebbles with the names of Welsh pop songs and groups. We shall hide these pebbles in the locality with the hope that the local residents will happen upon them and tweet us!
#RCTRocks (Twitter) / www.facebook.com (RCTRocks)

Dilynwch ni ar / *Follow us on:* **@YGGGLlantrisant**